# POLISI A GWEITHDREFN YNGHYLCH ADDASIADAU RHESYMOL

# CYNNWYS


**Rhagair** ........ **3**

**Polisi** ........ **5**

**Y weithdrefn ar gyfer nodi a gweithredu addasiadau rhesymol unigol** ........ **6**

**Addasiadau rhesymol: Adrannau Gwasanaethau Ysgolion/Professiynol** ........ **7**

**Y broses ymgynghori** ........ **9**

**Cais am adolygiad** ........ **10**

**Dolenni defnyddiol** ........ **10**

# 1. Rhagair

1.1 Mae’r Brifysgol yn ceisio darparu mynediad cyfartal ar gyfer ei ddisgyblion anabl drwy ddylunio cynhwysol ac, fel arall, drwy addasiadau rhesymol. Mae’r ymrwymiad hwn yn adeiladu ar sylfaen deddfwriaeth cydraddoldeb a chanllawiau ynghylch gwrth-wahaniaethu.

1.2 Mae’r Weithdrefn ynghylch Addasiadau Rhesymol yn darparu fframwaith ar gyfer gweithrediad effeithiol addasiadau rhesymol ar gyfer pob disgybl anabl ym Mhrifysgol Caerdydd.

**Cwmpas**

1.3 Mae Deddf Cydraddoldeb (2010) yn diogelu pobl rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ar sail anabledd a nodweddion gwarchodedig eraill.

1.4 Mae rhywun yn anabl os oes ar ei gorff neu ei feddwl nam sy’n amharu’n fawr ar ei allu i gynnal gweithgareddau beunyddiol arferol dros y tymor hir. Mae hyn yn cynnwys unigolion sydd ag amhariadau ar eu corff neu eu meddwl, â phroblemau iechyd meddwl, anawsterau dysgu penodol, ac ystod o gyflyrau cronig neu anwadal.

1.5 Mae’n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn person anabl mewn perthynas â darparu gwasanaethau addysgu neu rai cysylltiedig. Er hynny, mae’n gyfreithlon trin person anabl yn fwy ffafriol oherwydd yr anabledd.

1.6 Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar sefydliadau addysg uwch i ragweld anghenion a gwneud addasiadau rhesymol fel nad yw myfyrwyr anabl yn cael eu rhoi dan anfantais sylweddol o'u cymharu â myfyrwyr nad ydynt yn anabl. Mae'r ddyletswydd yn codi mewn perthynas â phob agwedd ar brofiad y myfyriwr, gan gynnwys:

1.61 darpariaethau, meini prawf, neu arferion (er enghraifft, gweithdrefnau, polisïau, deunyddiau cwrs, a dulliau addysgu ac asesu);

1.62 nodweddion ffisegol (er enghraifft, mynediad i adeiladau, gosodion a ffitiadau);

1.63 darparu cymhorthion ategol neu wasanaethau (er enghraifft, offer neu gymorth dynol).

1.7 Gall dylunio cynnwys y cwricwlwm mewn modd cynhwysol sicrhau y caiff hygyrchedd ei ymgorffori mewn gweithgareddau ar gyfer dysgu, addysgu ac asesu pob myfyriwr.

1.8 Mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn ddisgwylgar: Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Brifysgol gynllunio ymlaen a rhagweld anghenion tebygol myfyrwyr anabl, yn hytrach nag aros nes y cynigir addasiadau. Felly, dylai'r Brifysgol sicrhau, pan fo'n bosibl, fod addasiadau i bolisïau, arferion a

gweithdrefnau wedi'u gwneud ymlaen llaw er mwyn lleihau neu ddileu'r rhwystrau i fyfyrwyr anabl.

1.9 Diben y ddyletswydd yw cymryd camau rhesymol i ddileu neu osgoi anfantais fel bod myfyrwyr anabl yn gallu cymryd rhan yn effeithiol mewn addysg a budd-daliadau eraill, cyfleusterau, a gwasanaethau a ddarperir i fyfyrwyr. Ystyrir bod methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn wahaniaethu.

1.10 Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol mai dim ond addasiadau rhesymol a wneir. Bydd yr hyn sy'n rhesymol yn dibynnu fel arfer ar amgylchiadau unigol yr achos. Wrth asesu beth sy' n rhesymol, dylai'r Brifysgol ystyried y canlynol:

1.101 effaith yr anabledd ar y myfyriwr unigol;

1.102 effeithiolrwydd y camau penodol o ran dileu neu oresgyn yr anfantais berthnasol;

1.103 buddiannau perthnasol pobl eraill, e.e. a fyddai addasiad yn arwain at anfantais sylweddol i fyfyrwyr eraill;

1.104 ymarferoldeb y newidiadau;

1.105 unrhyw faterion iechyd a diogelwch posibl;

1.106 yr adnoddau sydd ar gael (rhai'r Brifysgol a chymorth ariannol arall fel y Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl)

1.107 costau ariannol a chostau eraill gwneud yr addasiad;

1.108 y math o addysg/darpariaeth neu fudd-dal arall, cyfleuster neu wasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan y Brifysgol;

1.109 i ba raddau y bydd cymhorthion a gwasanaethau'n cael eu darparu fel arall i fyfyrwyr anabl (e.e. cymorth gan yr awdurdod lleol)

1.11 Ni ddylai addasiadau rhesymol amharu ar safonau academaidd rhaglenni na modiwlau, gan nad yw'r Ddeddf Cydraddoldeb yn gosod unrhyw ddyletswydd i wneud addasiad rhesymol i safon cymhwysedd.

1.12 Mae safon cymhwysedd yn 'safon academaidd, meddygol neu arall, wedi'i chymhwyso at y diben o benderfynu a oes gan berson lefel benodol o gymhwysedd neu allu'. Mae'n rhaid i safon cymhwysedd fod yr un mor berthnasol i bob myfyriwr, bod yn wirioneddol berthnasol i'r rhaglen, a bod yn ffordd gymesur o gyflawni nod cyfreithlon.

1.13 Fodd bynnag, mae dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol i'r ffordd y caiff safon cymhwysedd ei hasesu fel na fydd myfyrwyr anabl dan anfantais o ganlyniad i'w anabledd. Mae'n rhaid nad yw addasiadau rhesymol yn effeithio ar ddilysrwydd na dibynadwyedd y deilliannau asesu. Fodd bynnag, gallant gynnwys, er enghraifft, newid y trefniadau neu'r dull asesu arferol,

addasu deunyddiau asesu, darparu ysgrifennydd neu ddarllenydd yn yr asesiad, ac ad-drefnu'r amgylchedd asesu.

## 2. Polisi

2.1 Diben y polisi hwn yw:

2.11 Rhoi gwybod i fyfyrwyr sut i gael gafael ar gymorth,

2.12 Cefnogi'r Brifysgol i gydymffurfio â gofynion deddfwriaeth berthnasol,

2.13 Egluro pwy sy'n gyfrifol am nodi a gweithredu addasiadau rhesymol,

2.14 Amlinellu'r camau angenrheidiol ar gyfer gweithredu addasiadau rhesymol yn effeithiol,

2.15 Rhoi gwybod i fyfyrwyr sut i apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed mewn perthynas ag addasiad rhesymol.

2.2 Mae Hwb Dysgu'r Brifysgol yn darparu adnoddau i staff am Gynllunio Dysgu, Asesu ar gyfer Dysgu, Cefnogi Addysgu, a Chefnogi Myfyrwyr. Mae pob un wedi'i ymgorffori yn egwyddorion cynwysoldeb a hygyrchedd ar gyfer dysgu, addysgu, asesu, a chefnogi myfyrwyr i ymarfer o ddydd i ddydd.

2.3 Mae'r Brifysgol yn gofyn y cynhelir Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) ar bob polisi ac arfer newydd a phresennol. Mae'r rhain yn ddefnyddiol o ran nodi a fyddai unrhyw bolisïau neu arferion yn anfantais anghymesur i rai grwpiau o ddefnyddwyr ac yn galluogi ysgolion ac adrannau i ystyried addasiadau rhagweledol.

2.4 Mae prosesau sicrhau ansawdd y Brifysgol yn sicrhau bod Colegau, Ysgolion ac Adrannau yn ystyried cydraddoldeb ac amrywiaeth dysgu, addysgu ac asesu

2.5 Fel myfyriwr, rydych chi'n gyfrifol am:

2.51 datgelu anabledd cyn gynted â phosibl;

5.52 darparu tystiolaeth i gefnogi'r anabledd (megis asesiad diagnostig ar gyfer namau dysgu, llythyrau/adroddiadau meddygol neu feddyg teulu ar gyfer cyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol, neu asesiad anghenion DSA presennol);

2.53 mynychu cyfarfodydd yn ôl y gofyn i drafod eich anghenion;

2.54 datgelu unrhyw newidiadau fel mwy o amhariad (e.e. oherwydd cyflwr sy'n dirywio) sy' n gofyn am addasiadau newydd neu addasu addasiadau sy'n bodoli eisoes;

2.55 darparu dogfennaeth i gefnogi'r addasiadau a argymhellir.

## 3. Y weithdrefn ar gyfer nodi a gweithredu addasiadau rhesymol unigol

3.1 Mae'r Gwasanaeth Anabledd a Dyslecsia (DDS) yn cynnal asesiadau o anghenion i ganfod y cymorth a'r addasiadau rhesymol sydd eu hangen i'ch galluogi i gymryd rhan yn eich rhaglen astudio a darpariaeth ehangach y Brifysgol. Bydd y DDS yn cymryd i ystyriaeth dystiolaeth ategol, e.e. llythyr meddyg teulu, adroddiad seicolegydd addysg, adroddiad asesiad anghenion DSA a'ch esboniad o'ch anghenion.

3.2 Gofynnir i ymgeiswyr sydd wedi datgelu anabledd ac sydd wedi derbyn cynnig ddarparu mwy o wybodaeth am eu hanabledd ynghyd â thystiolaeth ategol, ac i weithio gyda Chefnogaeth Myfyrwyr i sicrhau bod addasiadau rhesymol yn eu lle cyn gynted ag y bo modd. Bydd y DDS yn cysylltu ag ymgeiswyr i roi cyngor ar addasiadau rhesymol.

3.3 Dylech hefyd ddatgelu anabledd tra byddwch ar eich rhaglen cyn gynted ag y dewch yn ymwybodol ohono neu ei effaith ar eich gallu i gael mynediad i'ch rhaglen neu wasanaeth myfyrwyr arall. Cewch ymweld neu gysylltu â'r DDS a datgelu'n uniongyrchol. Os byddwch yn datgelu i aelod arall o staff bydd y wybodaeth yn cael ei throsglwyddo i'r DDS gyda'ch caniatâd yn unol â Pholisi Datgelu Anabledd Myfyriwr a bydd yr DDS yn cysylltu â chi.

3.4 Os ydych am i'ch gwybodaeth am anabledd aros yn gyfrinachol, cewch wybod a fydd hyn yn cyfyngu ar yr addasiadau y gellir eu gwneud ar eich cyfer. Byddai hyn yn wir os yw'r amgylchiadau'n golygu y byddai angen i staff wybod pwy ydych chi er mwyn gwneud yr addasiad perthnasol.

3.5 Cewch gyfle i gael asesiad anghenion i nodi addasiadau rhesymol.  mewn achosion pan fyddwch yn gofyn am gefnogaeth cyn yr asesiad anghenion, os yw addasiadau rhesymol safonedig yn cael eu hargymell gan y dystiolaeth ategol, bydd y DDS yn cynghori os gellir gwneud y rhain  yn y cyfamser hyd nes y cynhelir asesiad anghenion .

3.6. Bydd y DDS yn ystyried a yw addasiadau safonedig y Brifysgol yn diwallu eich anghenion penodol, ac yna bydd yn ystyried a oes angen addasiadau unigol hefyd. Wrth benderfynu ar addasiadau rhesymol unigol, bydd y DDS yn ystyried y ffactorau a nodir ym mharagraff 1.10 sy'n ymwneud â rhesymoldeb, ac yn benodol:

3.61 Eich amgylchiadau unigol a'r rhaglen;

3.62 Effeithiolrwydd yr addasiad;

3.63 Eich profiad blaenorol o'r addasiad, a'r amser a'r adnoddau sydd eu hangen i weithredu'r addasiad.

3.7 Os ydych yn gallu defnyddio cyllid allanol ar gyfer addasiad rhesymol, er enghraifft trwy'r DSA, mae'r Brifysgol yn disgwyl i chi ddefnyddio cyllid o'r fath. Bydd y DDS yn eich cefnogi gyda'r broses hon. Bydd gwneud cais am DSA yn cynnwys:

3.71 Gwneud cais a darparu tystiolaeth feddygol,

3.72 Mynychu apwyntiad asesu anghenion DSA,

3.73 Derbyn yr argymhellion asesu anghenion.

3.8 Bydd y DDS yn cysylltu ag ysgolion ac adrannau pan geir pryderon efallai na fydd yn bosibl rhoi addasiad yn ei le, e.e. oherwydd y gallai fod yn berthnasol i safon cymhwysedd.

3.9 Nid oes rheidrwydd ar y Brifysgol i gynnig yr addasiad a fyddai orau gan y myfyriwr pan fyddai addasiad rhesymol arall yr un mor effeithiol.

3.10 Os byddwch yn dewis rhannu eich adroddiad asesu anghenion DSA, bydd y DDS yn gallu adolygu addasiadau rhesymol blaenorol a nodwyd i asesu a oes angen unrhyw addasiadau ychwanegol.

3.11 Gall addasiadau rhesymol ar ffurf cymhorthion ategol gynnwys:

- Gweithwyr cymorth,
- Tiwtoriaid sgiliau astudio arbenigol,
- Mentoriaid Iechyd Meddwl.

3.12 Ar ôl i'r DDS gael cadarnhad bod angen cymorth arnoch gan y gwasanaethau hyn, cysylltir â chi gyda gwybodaeth ar sut i gael gafael ar y cymorth. Pan ddarperir y cymhorthion ategol hynny gan rywun ar wahân i Brifysgol Caerdydd, bydd y DDS yn gweithio gyda chi a'ch ysgol i gydlynu'r gwaith o weithredu'r gwasanaethau hyn.

3.13 Ar ôl cytuno ar addasiadau rhesymol, bydd manylion yr addasiadau rhesymol yn cael eu nodi mewn Hysbysiad Addasu Cymorth Unigol, a gedwir gan yr DDS. Ar yr amod eich bod wedi rhoi caniatâd i ddatgelu gwybodaeth, anfonir copi i'ch ysgol a, lle bo angen, at Adran Gwasanaethau Proffesiynol priodol y Brifysgol.

## 4. Addasiadau rhesymol: Adrannau Gwasanaethau Ysgolion/Proffesiynol

4.1 Caiff pob addasiad rhesymol ei gofnodi ar eich cofnod myfyriwr a'i ddarparu i staff perthnasol mewn Ysgolion/Adrannau yn unig pan fo'n angenrheidiol i roi addasiadau rhesymol ar waith. Os ydych ar raglen cydanrhydedd, rhoddir mynediad i'r ddwy Ysgol/Adran. Bydd y Cyswllt (Cysylltau) Anabledd a enwir yn cydgysylltu'r broses o weithredu addasiadau rhesymol yn lleol.

4.2 Caiff addasiadau rhesymol eu hystyried ar sail unigol, sy'n golygu y gellir argymell ystod eang ac amrywiol o addasiadau. Fodd bynnag, mae nifer o addasiadau rhesymol safonedig a roddir ar waith i helpu i oresgyn rhwystrau cyffredin. Yn achos addasiadau rhesymol safonol, y disgwyl yw y bydd yr Ysgol neu'r Adran yn rhoi'r rhain ar waith pan fydd DDS yn gofyn amdanynt heb fod angen ymgynghori ymhellach. Mae addasiadau safonedig yn cynnwys:

**Dysgu ac addysgu**

- Darparu copïau electronig o ddeunydd darlithio ymlaen llaw yn electronig (e.e. sleidiau darlith, taflenni, neu nodiadau darlithio yn cael eu darparu ymlaen llaw trwy'r Ganolfan Dysgu);

- Darparu recordiad o ddarlithoedd neu, os nad yw hyn yn bosibl, dewis rhesymol arall sydd yr un mor effeithiol, yn unol â'r Polisi ar gyfer Cofnodi Gweithgareddau Addysgol;

- Darparu rhestri darllen dan gyfarwyddyd sy'n gwahaniaethu rhwng testunau hanfodol neu destunau craidd a thestunau dymunol.

**Gwasanaethau Llyfrgell**

- Benthyciadau llyfrgell estynedig,

- Gwasanaeth cyrchu llyfrau,

- Defnyddio offer cynorthwyol mewn llyfrgelloedd.

**Addasiadau Rhesymol mewn Asesiadau**

- Addasiadau rhesymol o ran marcio a nodi gwaith gan fyfyrwyr ag anableddau sy'n effeithio ar fynegiant ysgrifenedig.
- Ffurfiau amgen o asesiadau ac addasiadau safonedig mewn arholiadau ysgrifenedig.
- Mae nifer o addasiadau rhesymol i arholiadau eisoes yn cael eu caniatáu fel rhywbeth arferol ar yr amod y cynhelir asesiad o anghenion y DDS ac y darperir tystiolaeth ategol. Sef:

    - Amser ychwanegol (hyd at 30 munud yr awr)
    - Seibiannau gorffwys (hyd at 10 munud yr awr)
    - Defnyddio ysgrifennydd a/neu ddarllenydd
    - Defnydd o gyfrifiadur
    - Sylw’r arholwr i gael ei dynnu at y sgriptiau arholiad
    - Fformat amgen ar gyfer papurau arholiad
    - Defnyddio eich offer eich hun
    - Darparu cadair addasadwy a/neu ddesg/stôl draed/llethr ysgrifennu.

4.3 Pan fydd y dull asesu yn rhoi myfyriwr anabl o dan anfantais sylweddol o'i gymharu â myfyrwyr sydd heb yr anabledd hwnnw ac nad yw'r addasiadau safonedig i arholiadau yn effeithiol wrth atal yr anfantais, bydd y Brifysgol yn ystyried dulliau eraill o asesu, na fydd yn cael effaith ar y safonau cymhwysedd.

4.4 Bydd ceisiadau ar gyfer ystyried dull amgen o asesu ar gyfer achosion eithriadol a bydd yn cael ei ystyried fesul achos gan y DDS a fydd yn cysylltu â'ch Ysgol i asesu'r hyn sy'n bosibl ac nad yw'n amharu ar safonau cymhwysedd.

4.5 Wrth benderfynu ar briodoldeb dull asesu amgen, bydd angen i'r Ysgol gael ei llywio gan safonau cymhwysedd y rhaglen. Dylai manyleb y rhaglen ddarparu'r sail ar gyfer eu pennu.

4.6 Mae'n bosibl na fydd yn bosibl darparu dull asesu amgen bob amser, er enghraifft, pan fydd cyswllt anorfod rhwng y dull archwilio a'r safon cymhwysedd. Fodd bynnag, os gwrthodir cais, caiff y rhesymau dros y penderfyniad hwn eu nodi gan gyfeirio at gymwyseddau allweddol y rhaglen.

## 5. Y broses ymgynghori

5.1 Fel myfyriwr byddwch yn gallu trafod eich addasiadau a argymhellir a chytuno arnynt gyda Chynghorydd Anabledd. Os oes gennych unrhyw broblemau gyda gweithredu eich addasiadau cymorth, dylech drefnu i drafod hyn gyda Chynghorydd Anabledd.

5.2 Bydd yr Cynghorydd Anabledd yn cysylltu â'r aelod o staff sy'n gyfrifol am weithredu addasiadau rhesymol ar gyfer eich rhaglen ac yn gwneud argymhellion ar yr hyn sydd ei angen arnoch. Bydd cynrychiolydd yr Ysgol yn ystyried yr addasiadau y gofynnir amdanynt ac yn penderfynu a ellir gwneud addasiadau a thrafod unrhyw bryderon am addasiadau a argymhellir gyda Chynghorydd Anabledd. Mae'n bosibl na chaniateir addasiadau sy'n effeithio ar safonau cymhwysedd.

5.3 Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall eich gallu i gyrchu dysgu ac addysgu gael ei lesteirio os nad yw'ch addasiadau cymorth ar waith, a byddwn yn gweithio gyda phob parti i sicrhau y gellir gwneud addasiadau mewn modd amserol.

5.4 Mewn achosion pan na all trafodaeth rhwng yr Ysgol a'r Cynghorwr Anabledd ddatrys pryder, neu pan fyddwch yn teimlo nad yw'r addasiadau yn effeithiol neu rydych chi' n credu eu bod yn afresymol, bydd y DDS yn cynnull panel adolygu o fewn 14 diwrnod i'r pryder gael ei godi i geisio datrysiad. Bydd aelodau'r panel yn cynnwys partïon perthnasol o'r rhestr ganlynol:

- Pennaeth Cymorth Materion Anabledd a Mynediad (neu enwebai);
- Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu (neu enwebai);
- Cyswllt Anabledd;
- Arweinydd rhaglen (neu enwebai);
- Arweinydd y modiwl
- Arweinydd asesu ac adborth (os defnyddir math amgen o asesu).

5.5 Os yw'r addasiadau rhesymol yn newid o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn, bydd y DDS yn nodi newidiadau ar eich cofnod ac yn rhoi gwybod i chi am benderfyniad yr Ysgol neu'r Adran.

5.6 Cewch eich hysbysu'n ysgrifenedig am ganlyniad cyfarfod y panel a'r penderfyniad ynghylch addasiadau. Bydd y llythyr yn cynnwys manylion am sut y gallwch herio'r penderfyniad hwn o dan Weithdrefn Adolygu'r Brifysgol.

## 6. Cais am adolygiad

6.1 Os credwch fod y penderfyniad ar eich addasiadau rhesymol yn anghywir, yn annheg, neu'n afresymol, ac nad yw wedi'i ddatrys gan y panel adolygu, mae gennych hawl i herio'r penderfyniad o dan y Weithdrefn Adolygu y Brifysgol. Bydd gofyn i chi ddarparu tystiolaeth i gefnogi'ch rhesymau dros herio'r penderfyniad.

## 7. Dolenni defnyddiol

Gwasanaeth Anabledd a Dyslecsia
Canllawiau DSA
Polisi Asesu
Polisi Datgelu